Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafcass Cymru

# Modelau Cam-drin Domestig

Mai 2025

llyw.cymru

# Cynnwys


1 Model Safe & Together™

4 Olwyn Pŵer a Rheolaeth Duluth

5 Trais Rhywiol

7 Yr Olwyn Pŵer a Rheolaeth Estynedig

8 Teipolegau Cam-drin Domestig


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52047, ISBN digidol 978-1-83715-708-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Modelau Cam-drin Domestig

Gellir defnyddio'r modelau canlynol fel adnoddau i'ch cefnogi pan fyddwch yn gwneud asesiadau er mwyn cydnabod patrymau neu dactegau camdriniol mewn achos. Mae'r rhain yn fodelau a ategir gan ymchwil a thystiolaeth a gellir cyfeirio atynt yn ein hasesiadau.

# Model Safe & Together™

Mae Cafcass Cymru wedi ymrwymo i weithio yn unol â model Safe & Together™. Datblygwyd y model hwn yn UDA gan David Mandel y mae ganddo 35 mlynedd o brofiad ym maes cam-drin domestig a lles plant, gan gynnwys gwaith uniongyrchol mewn rhaglenni ymyriadau i gyflawnwyr. Caiff y model ei gydnabod yn rhyngwladol ac mae'n dod yn ffordd o weithio gynyddol safonol o fewn Awdurdodau Lleol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

Mae'r model yn annog ymarferwyr Cafcass Cymru i wneud y canlynol:

- Defnyddio adnoddau i fapio patrymau ymddygiad cyflawnwyr er mwyn llunio asesiadau gwrthrychol o ddewisiadau magu plant a'u heffeithiau.
- Disgwyl safonau uchel o ran magu plant gan y ddau riant, ni waeth beth fo'u rhywedd a'u hunaniaeth bersonol.
- Nodi cryfderau a gallu'r rhiant nad yw wedi troseddu i amddiffyn, gan weithio gyda'r unigolyn i wneud yr argymhellion mwyaf diogel ar gyfer y plant.
- Cynnal ymyriadau gydag unigolion sy'n cam-drin, gan eu dwyn i gyfrif am niwed a achoswyd gan eu hymddygiad yn eich asesiad a'ch argymhellion ar gyfer trefniadau treulio amser gyda'r plentyn.

Mae'r model yn cynnwys tair egwyddor allweddol:

| Egwyddor 1 | |
|---|---|
| Cadw'r plentyn yn ddiogel a gyda'r rhiant nad yw wedi troseddu | • Diogelwch<br>• Gwella o Drawma<br>• Sefydlogrwydd a Magwraeth |
| **Egwyddor 2** | |
| Gweithio mewn partneriaeth â'r rhiant nad yw wedi troseddu fel sefyllfa ddiofyn. | • Effeithlon<br>• Effeithiol<br>• Yn canolbwyntio ar y plentyn |
| **Egwyddor 3** | |
| Cynnal ymyriadau gyda'r cyflawnwr er mwyn lleihau risg a niwed i'r plentyn. | • Ymgysylltu<br>• Atebolrwydd<br>• Llysoedd |

## Egwyddor 1: Pwyntiau Ymarfer

- Pa strategaethau ddefnyddiwyd gan y rhiant sy'n amddiffyn yn y gorffennol i reoli risgiau diogelwch personol a risgiau diogelwch i'r plentyn/plant?
- Pa strategaethau ddefnyddiwyd gan y rhiant sy'n amddiffyn i helpu'r plentyn/plant i wella o niwed/gwneud iawn am gamdriniaeth?
- Beth mae'r rhiant sy'n amddiffyn yn ei wneud i liniaru risg a niwed personol a risg a niwed i'r plant yn y dyfodol, neu sut y mae'n bwriadu gwneud hyn?

## Egwyddor 2: Pwyntiau Ymarfer

Cymerwch ran mewn sgyrsiau tosturiol, nad ydynt yn feirniadol ac sy'n ystyriol o drawma. Gall y cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol:

- Beth ydych chi wedi rhoi cynnig arno i'ch cadw chi a'r plant yn ddiogel? Beth wnaeth weithio yn eich barn chi? Beth oedd yn llai defnyddiol?
- Sut beth fyddai amser teulu diogel? A yw amser teulu diogel yn opsiwn o gwbl?
- Pan fyddwch yn sylwi bod rhywbeth drwg ar fin digwydd, beth yw'r peth mwyaf defnyddiol i chi er mwyn eich cadw chi a'r plentyn/plant yn ddiogel?
- A oes unrhyw un arall yn gwybod am y cam-drin? A ydynt yn cynnig cymorth pellach i chi?


## Egwyddor 3: Pwyntiau Ymarfer

- Paratowch ymlaen llaw gydag unrhyw wybodaeth ddefnyddiol sy'n ymwneud â risg, troseddau neu ymddygiadau.
- Dewiswch y lleoliad gorau lle gellir ystyried eich diogelwch chi yn ogystal â diogelwch pawb arall.
- Aseswch barodrwydd yr unigolyn i gymryd cyfrifoldeb am ymddygiadau camdriniol a mynd i'r afael â nhw.
- Cydnabyddwch fod cam-drin (boed hynny tuag at riant arall, aelodau o'r teulu neu'r plentyn/plant yn uniongyrchol) yn ddewis magu plant ac y bydd yn niweidio'r plentyn/plant.
- Os cytunir ar amser teulu, beth fydd yr unigolyn yn ei wneud i ganolbwyntio ar lesiant y plentyn a'r dioddefwr-oroeswr?

### Pwynt Ymarfer

Mae Egwyddorion 1 a 2 wedi'u cynllunio i helpu ymarferwyr Cafcass Cymru i fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau wrth ymdrin â rhieni sy'n ddioddefwyr-oroeswyr; er mwyn tynnu sylw at yr hyn y maent yn ei wneud yn dda. **Eu bwriad yw peidio â barnu na beio dioddefwyr-oroeswyr am beidio â gwneud digon ond, yn hytrach, dynnu sylw at agweddau lle maent o bosibl yn mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau i amddiffyn neu gefnogi eu plentyn/plant.**

## Yr Elfennau Hanfodol



# Olwyn Pŵer a Rheolaeth Duluth

Model a grëwyd gan wasanaethau cam-drin domestig, goroeswyr ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn UDA yw Olwyn Pŵer a Rheolaeth Duluth. Mae'n darparu fframwaith clir ar gyfer deall cam-drin domestig fel patrwm o ymddygiadau, yn hytrach na digwyddiadau unigol.

Mae nifer o fersiynau o'r olwyn, ond y ddwy fersiwn sydd fwyaf perthnasol i'r gwaith rydym yn ei wneud yn Cafcass Cymru yw Yr Olwyn Pŵer a Rheolaeth (Gwreiddiol).

## Y Cylch Mewnol: Pŵer a Rheolaeth

- Mae'r model hwn yn rhoi pŵer a rheolaeth wrth wraidd cam-drin domestig, gan ystyried eu bod yn elfennau craidd yn y patrwm hwn o ymddygiadau camdriniol.
- Nod y tactegau a ddefnyddir gan gyflawnwyr yw cynnal pŵer a rheolaeth dros y dioddefwr ac amgylchedd yr unigolyn hwnnw.

## Y Cylch Canol: Ymddygiadau Camdriniol Cyffredin

- Mae'r olwyn yn tynnu sylw at ymddygiadau camdriniol cyffredin, ond nid yw'n cynnwys pob enghraifft bosibl. Bydd pob achos yn cyflwyno ymddygiadau unigryw.
- Er enghraifft, gallai ystum neu weithred sy'n ymddangos yn ddiniwed i weithiwr proffesiynol olygu rhywbeth arwyddocaol i'r dioddefwr-oroeswr, a bydd hyn yn aml yn arwydd o gamdriniaeth bellach. Mae'n hollbwysig ystyried safbwynt y goroeswr er mwyn deall cyd-destun a difrifoldeb yr ymddygiad, sy'n helpu i asesu'r risg o niwed.

## Y Cylch Allanol: Trais Corfforol a Rhywiol

- Mae trais corfforol a rhywiol yn ymddangos yn y cylch allanol oherwydd fel arfer cânt eu defnyddio pan fydd tactegau eraill i gadw rheolaeth yn methu.
- Gall cyflawnwyr gelu achosion o gam-drin corfforol drwy dargedu rhannau cudd o'r corff. Gall trais corfforol "lefel isel" ddigwydd yn rheolaidd ond efallai na fydd yn gadael marciau gweladwy, neu efallai y bydd y cyflawnwr neu'r goroeswr yn diystyru'r marciau hynny.
- Mae'n arbennig o anodd datgelu achosion o gam-drin rhywiol oherwydd cywilydd, stigma ac ofn.
- Mewn rhai sefyllfaoedd, ni fydd trais corfforol yn digwydd yn rheolaidd, ond yn aml bydd y bygythiad parhaus o drais corfforol, o fewn cyd-destun rheolaeth drwy orfodaeth, yn cymell y dioddefwr-oroeswr i gydymffurfio.
- Gellir defnyddio camdriniaeth gorfforol fel ffordd o orfodi cydymffurfiaeth wedyn pan fydd goroeswr yn ceisio gwrthwynebu.
- Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd dioddefwyr-oroeswyr yn cael eu cam-drin yn gorfforol yn aml, ond bydd y bygythiad cyffredinol o gamdriniaeth gorfforol, o fewn cyd-destun rheolaeth drwy orfodaeth, yn ddigon i sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Yn yr achosion hyn, gellir defnyddio camdriniaeth gorfforol i orfodi cydymffurfiaeth pan fydd dioddefwr-oroeswr yn gwrthwynebu neu'n 'ymladd yn ôl'.

# Trais Rhywiol

Mewn achosion o reolaeth drwy orfodaeth, mae'n rhaid i ni ddeall y bydd trais rhywiol (gan gynnwys gorfodaeth rywiol) yn dacteg a ddefnyddir fel rhan o batrwm ehangach o ymddygiadau gan y cyflawnwr. Dyma pam mae Olwyn Pŵer a Rheolaeth Duluth yn cynnwys trais corfforol **A** thrais rhywiol yn y cylch allanol.

Mae trais rhywiol yn cwmpasu sbectrwm o ymddygiadau, gan gynnwys gorfodaeth rywiol.

Ni fydd trais rhywiol bob amser wedi'i gyfeirio at oroeswyr sy'n oedolion, gellir ei gyflawni yn erbyn plant a phobl ifanc hefyd.

## Ystadegau[1]

Mae **1 o bob 4 menyw** wedi cael ei threisio neu wedi dioddef ymosodiad rhywiol fel oedolyn.

Mae **1 o bob 18 dyn** wedi cael ei dreisio neu wedi dioddef ymosodiad rhywiol fel oedolyn.

Mae **1 o bob 6 phlentyn** wedi cael ei gam-drin yn rhywiol.

Caiff **1 o bob 2 achos o dreisio yn erbyn menywod** ei gyflawni gan bartner presennol neu gyn-bartner.

Caiff **6 o bob 7** achos ei gyflawni gan rywun y maent yn ei adnabod.

## Diffiniad Cyfreithiol o Gydsyniad

Mae cydsyniad mewn perthynas â gweithgarwch rhywiol wedi'i ddiffinio yn y gyfraith: Adran 74 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003.

Mae'r gyfraith yn nodi y gall person gydsynio i weithgarwch rhywiol os bydd yn cytuno o ddewis a bod gan yr unigolyn y rhyddid a'r gallu i wneud y dewis hwnnw.

Mae David Mandel, Prif Swyddog Gweithredol Sefydliad Safe & Together yn dweud y canlynol am drais rhywiol yng nghyd-destun cam-drin domestig yn achos cyfarfod amddiffyn plant:

> After a long discussion about father's violence and abuse, someone would mention that mom was pregnant again with his child. Eyes would roll and exasperated sighs would be audible in the room. The frustration was not with the violent father, but with the mother who was pregnant again...His coercion was forgotten, and she was being viewed as a person who had complete control over her sexuality and reproduction... There was zero connection being made between domestic violence perpetration, rape, sexual coercion, and the loss of bodily autonomy.[2]

Lle bydd rhieni wedi cael euogfarn am droseddau rhywiol neu dreisgar, dylid ystyried bod risg uchel o niwed pellach i unrhyw blant/pobl ifanc ac unrhyw oedolion perthnasol a dylai fod yn nodwedd sylweddol mewn unrhyw argymhellion terfynol.

---


1 [Rape, sexual assault and child sexual abuse statistics | Rape Crisis England & Wales]
2 David Mandel (2024) "Stop Blaming Mothers and Ignoring Fathers: How to Transform the Way We Keep Children Safe from Domestic Violence" p116

Ni allwn ddibynnu ar euogfarnau am drais rhywiol neu ddomestig yn unig fel tystiolaeth o risg uchel (er y dylid eu hystyried felly yn awtomatig os byddant yn bodoli). Canran fach o'r holl droseddau rhywiol y rhoddir gwybod amdanynt sy'n cael eu herlyn fel achos o drais rhywiol, ac ni ellir ystyried euogfarn fel yr unig dystiolaeth o risg.[3]

## Adnoddau Pellach

[What is sexual consent? (Rape Crisis England & Wales)]

[Types of sexual violence (Rape Crisis England & Wales)]



3 C-Decriminalisation-of-Rape-Report-CWJ-EVAW-IMKAAN-RCEW-NOV-2020.pdf

# Yr Olwyn Pŵer a Rheolaeth Estynedig

Olwyn Pŵer a Rheolaeth Duluth – Diwylliant

Gall cymhwyso'r olwyn hon fod yn fwy defnyddiol wrth geisio ystyried cyd-destun cymdeithasol ehangach cam-drin, ac i nodi'r ffactorau sy'n atal unigolion rhag cael cymorth i ymdrin ag achosion yn briodol. Bydd unigolion sy'n cam-drin yn defnyddio normau ac arferion cymdeithasol i gyfiawnhau eu gweithredoedd.

Drwy ystyried y cylchoedd allanol yn ein hasesiadau a sut maent yn berthnasol i achos, gallwn ymdrin â'n gwaith mewn ffordd fwy strwythuredig. Mae'n ein galluogi i wneud y canlynol:

- Cydnabod y ffordd y mae cyflawnwyr yn defnyddio systemau i gyfiawnhau a galluogi eu hymddygiad, ac felly roi'r cyfle i ni fynd i'r afael ag ef ac awgrymu camau gweithredu er mwyn lliniaru niwed pellach.
- Cydnabod y rhwystrau sy'n atal goroeswyr cam-drin rhag datgelu achos o gam-drin, mynd i'r afael ag ef a cheisio cymorth ar ei gyfer, gan ein galluogi i ystyried ffyrdd o chwalu'r rhwystrau hyn.

# Teipolegau Cam-drin Domestig

Yn ei waith o 2008, **'A Typology of Domestic Violence: Intimate Terrorism, Violent Resistance, and Situational Couple Violence'**, mae Michael P Johnson yn disgrifio gwahanol fathau o gam-drin domestig.

Cynigiodd dri chategori ar gyfer mathau o gam-drin, y mae gan bob un ohonynt gymhellion gwahanol dros drais, teipolegau gwahanol o ddioddefwyr a lefelau gwahanol o risg. Yn fras, caiff y mathau hyn eu categoreiddio fel a ganlyn:

- Trais Sefyllfaol rhwng Cwpl
- Ymddygiad Gorfodaethol a Rheolaethol
- Gwrthwynebiad Treisgar.

Mae trais sefyllfaol rhwng cwpl yn cyfeirio at fath o drais gan bartner personol sy'n deillio o wrthdaro sy'n mynd yn waeth ac yn troi'n ffrae gorfforol. Bydd y math hwn o drais yn digwydd yn achlysurol fel arfer ac nid yw wedi'i nodweddu gan batrwm o reoli a goruchafu, sy'n ei wneud yn wahanol i fathau eraill o drais domestig, megis rheolaeth drwy orfodaeth. Caiff trais sefyllfaol rhwng cwpl ei ddisgrifio fel 'cyd gam-drin' hefyd, gan gyfrannu at fythau sy'n awgrymu bod y ddau bartner 'gynddrwg â'i gilydd'.

Yn gyffredinol, caiff y math hwn o drais ei gymell gan straenachoswyr ac mewn ymateb i faterion penodol, ac nid yw'n cynnwys y dyhead i reoli eraill. Mae'n niweidiol i blant ac oedolion o hyd a gall waethygu i drais difrifol.

Caiff gwrthwynebiad treisgar ei ddefnyddio gan ddioddefwyr-oroeswyr mewn ymateb i reolaeth drwy orfodaeth. Mae'n niweidiol o hyd, a hynny'n aml tuag at y person sy'n cam-drin, ond gall gael ei gyfeirio tuag at y dioddefwr-oroeswr ei hun. Y cymhelliant a'r cyd-destun sy'n gysylltiedig â'r trais hwn yw bod y dioddefwr-oroeswr yn ceisio adennill rheolaeth bersonol, gan wrthwynebu i reolaeth y cyflawnwr.

Mae'n bosibl y byddwch wedi dod ar draws y teipolegau hyn yn eich gwaith proffesiynol, a defnyddir y theori mewn rhai cyd-destunau proffesiynol.

**Fodd bynnag, ceir problemau cyffredin wrth ei defnyddio.** Caiff rheolaeth drwy orfodaeth ei chamgymryd am drais sefyllfaol rhwng cwpl yn aml oherwydd:

a. bod dioddefwr-droseddwr wedi ymateb â thrais mewn gwrthwynebiad ac yna caiff hyn ei gyflwyno fel 'cyd' gam-drin gan y cyflawnwr neu weithwyr proffesiynol

b. gall tactegau rheolaeth drwy orfodaeth fod yn gynnil neu'n anodd eu hadnabod i weithwyr proffesiynol nad ydynt wedi'u hyfforddi ac mae'n bosibl na fydd dioddefwyr-oroeswyr eu hunain yn cydnabod bod y math hwn o gam-drin yn digwydd

c. gall gweithwyr proffesiynol wneud rhagdybiaethau ynghylch nodweddion dioddefwyr-oroeswyr a/neu gyflawnwyr; fel y cyfryw, gallai dioddefwyr-oroeswyr neu gyflawnwyr sy'n ymddwyn mewn ffordd 'annisgwyl' ddylanwadu ar ein barn ac effeithio ar ein dadansoddiad o achos.[4]

4 Asesu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat (tudalen 114-115)

Mae rheolaeth drwy orfodaeth yn gysylltiedig â mathau mwy difrifol o niwed (corfforol ac emosiynol) na thrais sefyllfaol rhwng cwpl; gall y sgil-effeithiau o ganlyniad i gamgymryd un math fel math arall fod yn drychinebus i lesiant dioddefwyr-oroeswyr.

Mae ymchwil hefyd wedi canfod y canlynol:

> "situational couple violence is also less likely to persist following separation, whereas coercive control may result in increased risk to victims and children after separation"
>
> (Hardesty et al., 2016,[5] Katz et al., 2020[6]).

Mae Adroddiad y Panel Niwed (2020) yn cynnwys llawer o dystiolaeth o danseilio difrifoldeb achosion o gam-drin, gan achosi problemau yn y system llys teulu. Mae hyn yn cynnwys achosion lle na chaiff dioddefwyr-oroeswyr (oedolion a phlant) eu clywed ac achosion lle caiff difrifoldeb camdriniaeth y rhoddwyd gwybod amdani ei danseilio. Mae'r adolygiad llenyddiaeth[7] sy'n cyd-fynd â'r adroddiad wedi canfod bod lefel cyffredinrwydd cam-drin domestig yn uchel mewn achosion plant cyfraith breifat yn y llysoedd teulu, ac yn uwch na'r ffigur ar gyfer y boblogaeth gyffredinol, gan amrywio rhwng 49% a 62% o achosion.

## Pwynt Ymarfer

Er mwyn canfod cyd-destun unrhyw ymddygiadau a welir, mae'n arfer dda dechrau drwy asesu a yw un rhiant yn defnyddio rheolaeth drwy orfodaeth ac ymddygiadau camdriniol yn erbyn y rhiant arall. Yn dilyn yr asesiad hwn, os na chaiff hyn ei gadarnhau, dylid ystyried cyd-destunau neu gymhellion posibl eraill. Bydd hyn yn helpu i osgoi achosion o gamgymryd achosion o reolaeth drwy orfodaeth fel achosion o drais sefyllfaol rhwng cwpl.

5 "Kids are in the middle of it" – Child protection practitioners reflect on indicators of coercive control and situational couple violence – ScienceDirect
6 When Coercive Control Continues to Harm Children: Post-Separation Fathering, Stalking and Domestic Violence – Katz – 2020 – Child Abuse Review – Wiley Online Library
7 Domestic abuse and private law children cases (publishing.service.gov.uk)